



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Helden Care Agency Ltd

**2 St. Johns Road
Casnewydd
NP19 8GW**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/01/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Helden Care Agency Ltd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Helden Care Agency Ltd
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Yr arolygiad cyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl yn elwa ar gymorth a ddarperir gan dîm gofal gwybodus a phrofiadol a gwasanaeth a reolir yn dda. Mae pob person yn derbyn gofal a chymorth wedi'u teilwra at ei anghenion unigol, ei hoff bethau a'i gas bethau ac mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth hwnnw. Maent yn disgrifio'r gwasanaeth gan Helden Care fel “*excellent*” ac “*exceptional*”. Maent hefyd yn dweud bod y gweithwyr gofal yn “*respectful*”, “*friendly*”, “*the best*”, “*excellent*”, “*first-class people*” a “*highly trained*”.

Mae prosesau sefydledig ar waith i gael gwybod anghenion y bobl, i ddarparu'r gwasanaeth ac i adolygu'r gofal a ddarperir. Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio gan yr unigolyn cyfrifol sydd hefyd yn ymgymryd â rôl y rheolwr. Fel y cyfryw, mae'n ymwneud â rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, yn adnabod pob aelod o'r staff a'r bobl y mae'r asiantaeth yn eu cefnogi. Mae ganddo ddealltwriaeth fanwl o'r gwasanaeth a'r bobl, sy'n ei alluogi i nodi problemau yn brydlon, i weithredu pan fo angen, ac i gynnal gwasanaeth cyson dda.

Llesiant

Mae'r unigolion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ac y maent am ei gael. Mae'r bobl sy'n cael eu cefnogi gan Helden Care yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal sy'n eu hadnabod. Dywedodd un person wrthym fod y gweithwyr gofal yn rhagorol, eu bod bob amser yn cyrraedd yn brydlon ac mai dyma'r gwasanaeth gorau y mae wedi'i gael. Mae darparwr y gwasanaeth yn gofyn am farn y bobl a'u perthnasau am y gwasanaeth. Roedd yr adborth a roddwyd i ddarparwr y gwasanaeth yn ystod y deuddeg mis diwethaf yn cynnwys: *“Extremely happy with the service, no complaints at all”, “For the last two years Helden Care have looked after my care and only can say they have treated me with the utmost respect, kindness that you would normally only associate with family”, “Everyone is lovely and kind” a “The care X receives is second to none, exceptional care”.*

Caiff y bobl eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y bobl yn bwyta ac yn yfed yn dda a phan fo angen cymorth, maent yn eu helpu i gymryd eu meddyginiaeth. Mae'r staff yn cadw llygad am newidiadau yn iechyd y bobl, yn cadw cofnodion ac yn rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol allanol perthnasol yn ôl yr angen.

Caiff y bobl eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff gofal yn adnabod yr arwyddion ac yn gwybod sut i fynegi pryderon os byddant yn amau bod llesiant rhywun mewn perygl. Caiff y staff gofal hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith i'w harwain. Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnal asesiadau risg a lle caiff risgiau eu nodi, mae'n llunio cynlluniau cymorth manwl. Mae hefyd yn sicrhau bod y cyfarpar cywir ar gael er mwyn i'r gweithwyr gofal allu cefnogi'r bobl mewn ffordd mor ddiogel â phosibl.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r adborth a gawsom a'r adborth a gafodd y darparwr yn dangos bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u perthnasau yn fodlon iawn ar y gwasanaeth. Mae'r geiriau maent yn eu defnyddio yn dangos bod ganddynt feddwl uchel o'r gwasanaeth. Ysgrifennodd un perthynas: "*Helden Care provide exceptional quality of care set to the highest standards*". Nododd person arall bod y staff yn gwrando ar straeon, dymuniadau, hoff bethau a chas bethau eu perthynas.

Mae'r darparwr yn ystyried ystod o wybodaeth am ddarpar ddefnyddwyr y gwasanaeth cyn dechrau darparu cymorth. Mae'n adolygu asesiadau a chynlluniau a luniwyd gan gomisiynwyr a gweithwyr proffesiynol allanol. Yna mae'n cynnal asesiad cychwynnol er mwyn casglu gwybodaeth bellach gan y bobl a'u perthnasau. Mae'n defnyddio'r holl wybodaeth a gesglir i lunio cynlluniau gofal a chymorth y bobl. Mae'r rhain yn rhestru'r meysydd lle mae angen gofal a chymorth ar y bobl ac yn nodi hoff bethau a chas bethau'r bobl a sut yr hoffent gael cymorth er mwyn i'r gweithwyr gofal allu gweld y wybodaeth honno. Mae'r darparwr hefyd yn cynnal asesiadau risg a, phan fo angen, caiff camau i leihau risgiau eu nodi mewn cynlluniau.

Mae'r staff gofal yn cofnodi'r holl ofal a chymorth y maent yn eu darparu bob dydd mewn cofnodlyfr dyddiol. Maent yn cwblhau cofnod rhoi meddyginiaeth pan fyddant yn helpu'r bobl â'u meddyginiaeth. Gwelsom fod y rheolwr yn archwilio'r cofnodion dyddiol a gaiff eu cwblhau gan y gweithwyr gofal. Mae'n defnyddio'r wybodaeth a gesglir o'r cofnodion ac o'r adborth a gaiff gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u perthnasau i adolygu'r cynlluniau gofal. Mae hyn yn sicrhau bod y cynlluniau yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn elwa ar wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda. Mae'r unigolyn cyfrifol hefyd yn cyflawni rôl y rheolwr. Mae wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'n ymwneud â gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gwelsom ei fod yn adnabod pob aelod o'r staff a'r bobl y mae'r asiantaeth yn eu cefnogi. Mae ganddo ddealltwriaeth fanwl o'r gwasanaeth a'r bobl, sy'n ei alluogi i nodi problemau yn brydlon, i weithredu pan fo angen, ac i gynnal gwasanaeth cyson dda. Yn ogystal â'r gwaith o reoli'r gwasanaeth yn uniongyrchol, mae'n cynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd sy'n ei alluogi i oruchwylio'r gwasanaeth cyfan. Gwelsom ei fod yn cynnal archwiliadau, yn ceisio adborth gan y staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn cwblhau adroddiadau i ddangos tystiolaeth o'r gweithgareddau hyn. Cawsom drafodaeth â'r unigolyn cyfrifol am y gwaith y mae'n ei wneud i gyfuno ei adroddiadau i lunio un adroddiad ar ansawdd y gofal.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan aelodau o staff sy'n cael eu fetio, eu hyfforddi, eu cefnogi a'u datblygu. Mae'r cofnodion a welsom yn dangos bod y darparwr yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol wrth recriwtio staff. Mae'r staff newydd yn cael cyfnod sefydlu ac mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Roedd y staff yn canmol y rheolwr a'r cymorth y maent yn ei gael ganddo. Gwnaethant nodi hefyd eu bod yn cael cymorth gan gydweithwyr a bod y gwaith tîm yn dda. Maent yn dangos brwdfrydedd tuag at eu rolau.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Dyddiad Cyhoeddi 11/05/2023